Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Gorffennaf 2021

Nifer y carafanau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig, anawdurdodedig ac awdurdod lleol ar gyfer Gorffennaf 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Hydref 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Hydref 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Pwyntiau allweddol

Carafannau yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio

Lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

# Pwyntiau allweddol

Ar 22 Gorffennaf 2021, adroddwyd fod 1,095 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr a 143 o safleoedd yng Nghymru.

Rhwng Ionawr 2021[1] a Gorffennaf 2021, mae cyfanswm nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr wedi cynyddu 2.8% (30 o garafannau) ac mae cyfanswm nifer y safleoedd (awdurdodedig ac anawdurdodedig) wedi cynyddu 2.9% (4 o safleoedd).

## Nodyn

(1) Fel arfer, byddem yn cymharu'r ffigurau diweddaraf â'r mis cyfatebol yn y flwyddyn galendr flaenorol. Fodd bynnag, oherwydd pandemig y coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.

# Carafannau yn ôl p’un a awdurdodwyd y


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## safleoedd ai peidio

Adeg cyfrif Gorffennaf 2021, cyfanswm nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru oedd 1,095. Roedd 928 o garafannau ar safleoedd awdurdodedig â chaniatâd cynllunio, gan gyfrif am 85% o'r holl garafannau. O'r rhain, roedd 618 (67%) ar safleoedd rhent cymdeithasol a 310 (33%) ar safleoedd a ariennir yn breifat.

Mae Siart 1 isod yn dangos dadansoddiad o'r carafannau yn ôl statws awdurdodedig ac anawdurdodedig.

**Siart 1: Carafannau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl math o safle, Gorffennaf 2021**




Ffynhonnell: Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

Roedd 92 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig ar dir a oedd yn eiddo i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cyfrif am 8% o'r holl garafannau. Roedd 75 o garafannau eraill (7% o'r holl garafannau) ar safleoedd anawdurdodedig ar dir nad oedd yn eiddo i Sipsiwn a Theithwyr.

Caerdydd, Sir Benfro, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r cyfanswm uchaf o garafannau; gyda'i gilydd roedd y rhain yn cyfrif am 53% o'r holl garafannau. Casnewydd oedd â'r nifer uchaf o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig (49 o garafannau, yn cyfrif am 29% o'r holl garafannau ar safleoedd anawdurdodedig).

Mewn rhai achosion, mae carafannau ar safleoedd anawdurdodedig ond mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â cheisio cael gwared ar y gwersyll. Ym mis Gorffennaf 2021 roedd 97 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig a oddefir. Gwelwyd y nifer fwyaf o'r rhain ym Mro Morgannwg lle'r oedd 30 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig a oddefir. Roedd 70 o garafannau ar safleoedd anawdurdodedig nas goddefir.


Darperir tablau manwl ar lefel awdurdodau lleol yn y **tablau cysylltiedig**. Cewch fwy o wybodaeth gefndirol ac am ansawdd yn yr **adran gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**. Esbonnir termau sydd ag ystyr arbennig yn yr eirfa.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr yn ôl p’un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio, Gorffennaf 2018 hyd at Gorffennaf 2021 (a) (b)





Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)

(a) Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.
(b) Ar gyfer mis Ionawr 2021, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr adroddiad Ansawdd Data am ragor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 3: Nifer y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn ôl p'un a awdurdodwyd y safleoedd ai peidio, Ionawr 2010 hyd at Gorffennaf 2021 (a) (b)**




Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)
(a) Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.
(b) Ar gyfer mis Ionawr 2021, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr adroddiad Ansawdd Data am ragor o

## Lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol

Darparwyd 409 o leiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar 22 Gorffennaf 2021. O'r rhain, roedd 407 yn lleiniau preswyl ac roedd 2 yn lleiniau tramwy.


Caerdydd, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer uchaf o leiniau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol (80, 73 a 67 o leiniau'r un, yn y drefn honno) gan gyfrif am dros hanner cyfanswm nifer y lleiniau (54%). Adroddodd 8 awdurdod lleol nad oedd ganddynt unrhyw leiniau ar 22 Gorffennaf 2021. Ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

adeg y cyfrif, roedd 98% o'r lleiniau preswyl wedi'u meddiannu.

Mae Siart 4 yn dangos dadansoddiad dros amser o nifer y lleiniau yng Nghymru.

**Siart 4: Nifer y lleiniau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol (a) yn ôl statws tramwy / preswyl, Gorffennaf 2018 hyd at Gorffennaf 2021 (b) (c)**




Ffynonellau: Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan (Llywodraeth Cymru)
(a) Fe'u gelwir hefyd yn Safleoedd Rhent Cymdeithasol. Maent yn cynnwys safleoedd sy'n eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
(b) Oherwydd pandemig y Coronafeirws, ni chynhaliwyd cyfrifiad carafannau chwemisol Llywodraeth Cymru yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2020.
(c) Ar gyfer mis Ionawr 2021, defnyddiwyd data ar-lein Cyfrif Carafannau Cymru Gyfan i gynhyrchu cyfrif o garafannau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cymryd gofal wrth fynd ati i ystyried tueddiadau dros amser. Gweler yr adroddiad Ansawdd Data am ragor o wybodaeth.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am ansawdd data a methodoleg yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Daniel Boon
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
Email: **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 326/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Gorffennaf 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.